YSGOL HENRY RICHARD

Tregaron - Ceredigion - SY25 6HG

Ffôn/Tel: 01974 298231

admin@henryrichard.ceredigion.sch.uk

@YsgolHR www.ysgolhenryrichard.cymru

Pennaeth / Headteacher: Mr Dorian Pugh

Awst 12fed, 2020

Annwyl riant / gofalwr,

Gobeithiaf eich bod fel teuluoedd a'r gymuned ysgol yn parhau i fod yn iach ac yn ddiogel yn ystod gwyliau'r Haf.

Ysgrifennaf atoch er mwyn eich diweddaru parthed trefniadau diwrnod canlyniadau TGAU'r wythnos nesaf, ar Ddydd Iau, Awst 20fed. Yn anffodus ni fyddwn yn medru croesawu disgyblion i safle'r ysgol i gasglu'r canlyniadau eleni fel sy'n digwydd yn flynyddol oherwydd cyfyngiadau Covid19 . Yn hytrach bydd canlyniadau yn cael ei danfon at y disgyblion yn uniongyrchol. Gweler y trefniadau isod:

- Byddwn fel ysgol yn danfon canlyniadau allan at **e-byst ysgol** y disgyblion sef @cerenet ar ôl 8yb. Am resymau GDPR, nid oes hawl gennym ddanfon y canlyniadau at e-byst eraill megis @hotmail neu @gmail.
- Nid oes hawl gennym ddanfon y canlyniadau at e-byst rhieni/gofalwyr gan mai canlyniadau'r disgyblion yw'r rhain. Ni fyddwn chwaith yn medru rhannu canlyniadau gyda rhieni/gofalwyr dros y ffôn.
- Byddwn yn ffonio pob un disgybl yn ystod Dydd Iau, Awst 20fed er mwyn sicrhau eu bod nhw wedi derbyn y canlyniadau a thrafod unrhyw faterion.
- Bydd copïau papur o'r canlyniadau yn cael eu postio allan i bob un disgybl.

Rydym yn gwerthfawrogi fod y cyfnod hwn wedi bod yn anodd i ddisgyblion wrth iddynt gyflawni'r cyrsiau TGAU. Gweler y linc isod am wybodaeth bellach sy'n ymwneud a gosod graddau terfynol i'r disgyblion:
https://qualificationswales.org/media/6368/200810-qual-summer-2020-results_wel.pdf

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi i gysylltu.

Cofion gorau,

Dorian Pugh
Pennaeth
prif@henryrichard.ceredigion.sch.uk

Stonewall Hyrwyddwr Addysg Education Champion CYMRU

nace cymru member 2017 National Association for Able Children in Education

Ysgolion Iach Ceredigion

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru Part Funded by Welsh Government

YSGOL HENRY RICHARD

Tregaron - Ceredigion - SY25 6HG

Ffôn/Tel: 01974 298231

admin@henryrichard.ceredigion.sch.uk

@YsgolHR www.ysgolhenryrichard.cymru

Pennaeth / Headteacher: Mr Dorian Pugh

Mewn llafur mae elw

Stonewall Hyrwyddwr Addysg Education Champion CYMRU

nace cymru member 2017 National Association for Able Children in Education

Ysgolion Iach Ceredigion

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru Part Funded by Welsh Government